Chris Kemp, a roddodd aren i'w fab, Oliver.

"Dyw bod ag un aren ddim yn fy rhwystro rhag gwneud pethau o gwbl. Mae Oliver a fi'n tynnu coes am y trawsblaniad weithiau. Dwi'n dweud wrtho ei fod wedi cael fy arian – waeth iddo gael fy nghorff hefyd!"

Tom Bortey (ar y dde), a dderbyniodd aren gan ei frawd, George.

"Oni bai fod fy mrawd wedi cyfrannu ei aren i mi, fyddai gen i ddim gobaith. Mae'n gyfrifoldeb arna'i ar ran bobl dduon eraill i ddweud wrthyn nhw am ein stori ni, er mwyn iddyn nhw allu meddwl am gyfrannu aren."

Paulette Cain, a gyfrannodd aren i'w gŵr, David.

"Mae pobl yn dweud ei fod yn beth hael i'w wneud. Ond mewn gwirionedd, roeddwn i eisiau hyn ar fy nghyfer fy hun a Jade, ein merch fach, cymaint ag i David ei hun gan fod y straen ar ein bywydau mor fawr."